Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	24 Tachwedd 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog	David Wilson, Archwilio Cymru
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir Ddinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru o Gyngor Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I gyflwyno copi o 'Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir Ddinbych' a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Archwilio Cymru ynghyd ag 'Ymateb y Rheolwyr' sydd ar gael yn Atodiadau 1 a 2.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r adroddiad ac yn ystyried ymateb y rheolwyr.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheoli mewnol, rheoli perfformiad a threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Fel rhan o'r rôl hon mae'n rhaid iddo hefyd ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol fel Archwilio Cymru.

4.2. Bydd y Swyddog Adran 151 a chynrychiolwyr Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiwn.

4.3. Mae'r argymhelliad yn ymwneud â'r angen i sicrhau bod cyllidebau a gweithgareddau gweithredol yn cael eu halinio'n well er mwyn cynnal cynaliadwyedd ariannol parhaus. Mae'r rheolwyr yn credu bod y Strategaeth Gyllidebol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fis Ebrill yn darparu fframwaith cadarn i helpu i sicrhau bod pwysau gwasanaeth ac arbedion yn cael eu hystyried yn ystod y broses gyllidebol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod hon yn broses barhaus sy'n gofyn am lawer o waith bob blwyddyn. Dylid hefyd cydnabod y bydd yr amrywiadau cyllidebol yn ystod y flwyddyn yn parhau i ddigwydd a bod gan Gyngor Sir Ddinbych hanes blaenorol da o reoli'r amrywiadau hynny o fewn yr adnoddau ariannol cyffredinol a ddyrennir bob blwyddyn a drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn ofalus.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae gwaith Archwilio Cymru yn ymdrin â rhai o'r Blaenoriaethau Corfforaethol (e.e. yr Amgylchedd) ac, yn fwy cyffredinol, effeithiolrwydd rheolaethau ariannol a pherfformiad Cyngor Sir Ddinbych.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni cheir goblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil yr adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae hwn yn adroddiad ar gynllun gwaith gan sefydliad allanol felly nid oes angen asesu'r effaith ar les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r adroddiad hwn (y fersiwn ddrafft a'r fersiwn derfynol) wedi'i rannu gyda'r Swyddog Adran 151 a'r Prif Weithredwr cyn y cafodd ymateb y rheolwyr ei baratoi.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ni cheir goblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae hwn yn amlwg yn ddarn pwysig o waith sy'n derbyn croeso.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risg yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad. Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.